

Rhybudd Digwyddiad Dros Dro

Cyn cwblhau'r rhybudd hwn, darllenwch y nodiadau esboniadol ar ddiwedd y rhybudd. Os ydych yn cwblhau'r rhybudd hwn â llaw, cofiwch ysgrifennu'n glir mewn llythrennau bras. Ymhob achos, sicrhewch fod eich atebion o fewn y blychau ac mewn inc du neu wedi'u teipio. Defnyddiwch ddalennau ychwanegol os bydd angen. Dylech gadw copi o'r rhybudd ar ôl ei gwblhau. Rhaid i chi anfon o leiaf un copi o'r rhybudd hwn at yr awdurdod trwyddedu a rhaid anfon copïau ychwanegol at brif swyddog yr heddlu a'r awdurdod lleol sydd â swyddogaethau iechyd y cyhoedd dros yr ardal lle mae'r safle. Bydd yr awdurdod trwyddedu'n rhoi cydnabyddiaeth ysgrifenedig o dderbyn y rhybudd i chi.

Yr wyf fi, defnyddiwr y safle arfaethedig, drwy hyn yn rhoi rhybudd dan adran 100 o Ddeddf Drwyddedu 2003 o'm cynnig i wneud gweithgaredd dros dro yn y safle sy'n cael ei ddisgrifio isod.

| | | | |
|--|--|----------|----------|
| 1. Manylion personol defnyddiwr yr eiddo (Darllenwch nodyn 1) | | | |
| 1. Eich Enw | | | |
| Teitl | Mr <input type="checkbox"/> Mrs <input type="checkbox"/> Miss <input type="checkbox"/> Ms <input type="checkbox"/> Arall (nodwch beth) | | |
| Cyfenw | | | |
| Enwau Blaen | | | |
| 2. Enwau blaenorol (Rhowch fanylion unrhyw enwau blaenorol neu enwau morwynol, os yw'n berthnasol. Ewch ymlaen ar ddalen arall os bydd angen) | | | |
| Teitl | Mr <input type="checkbox"/> Mrs <input type="checkbox"/> Miss <input type="checkbox"/> Ms <input type="checkbox"/> Arall (nodwch beth) | | |
| Cyfenw | | | |
| Enwau Blaen | | | |
| 3. Eich dyddiad geni | Diwrnod | Mis | Blwyddyn |
| 4. Eich man geni | | | |
| 5. Rhif Yswiriant Gwladol | | | |
| 6. Eich cyfeiriad presennol (Byddwn yn defnyddio'r cyfeiriad hwn i gyfathrebu â chi oni bai eich bod yn llenwi'r blwch cyfathrebu ar wahân isod) | | | |
| | | | |
| Tref Bost | | Cod Post | |
| 7. Manylion cysylltu eraill | | | |
| Rhifau ffôn Yn ystod y dydd Noswaith (dewisol) Symudol (dewisol) | | | |

| | |
|---|----------|
| 8. Cyfeiriad arall ar gyfer gohebiaeth (Os byddwch yn rhoi'r manylion isod, byddwn yn defnyddio'r cyfeiriad hwn i gyfathrebu â chi) | |
| | |
| Tref Bost | Cod Post |
| 9. Manylion cysylltu eraill (os ydynt yn berthnasol) | |
| Rhifau ffôn Yn ystod y dydd Noswaith (dewisol) Symudol (dewisol) | |
| Rhif ffacs (dewisol) | |
| Cyfeiriad e-bost (os yw ar gael) | |

2. Y Safle

Rhowch gyfeiriad y safle ble'r ydych yn bwriadu gwneud y gweithgareddau trwyddedadwy neu, os nad oes ganddo gyfeiriad, rhowch ddisgrifiad manwl (gan gynnwys cyfeirnodau grid yr Arolwg Ordnans) (Darllenwch nodyn 2)

A oes trwydded safle neu dystysgrif safle clwb yn cael effaith mewn perthynas â'r safle (neu unrhyw ran o'r safle)? Os felly, rhowch rif y drwydded neu dystysgrif isod.

Rhif y drwydded safle

Rhif y dystysgrif safle clwb

Os ydych yn bwriadu defnyddio dim ond rhan o'r safle yn y cyfeiriad hwn neu'n bwriadu cyfyngu'r ardal berthnasol i'r rhybudd hwn, rhowch ddisgrifiad a manylion isod. (Darllenwch nodyn 3)

Disgrifiwch natur y safle isod. (Darllenwch nodyn 4)

Disgrifiwch natur y digwyddiad isod. (Darllenwch nodyn 5)

| 3. Y gweithgareddau trwyddedadwy | | |
|---|------------------------|--------------------------|
| Nodwch y gweithgareddau trwyddedadwy y bwriadwch eu gwneud yn y safle (ticiwch holl weithgareddau trwyddedadwy y bwriadwch eu gwneud). (Darllenwch nodyn 6) | | |
| Adwerthu alcohol | | <input type="checkbox"/> |
| Cyflenwi alcohol gan neu ar ran clwb i, neu ar archeb, aelod o'r clwb | | <input type="checkbox"/> |
| Darparu adloniant rheoledig (Darllenwch nodyn 7) | | <input type="checkbox"/> |
| Darparu lluniaeth hwyrol | | <input type="checkbox"/> |
| Ydych chi'n rhoi rhybudd digwyddiad hwyrol dros dro? (Darllenwch nodyn 8) | | <input type="checkbox"/> |
| Nodwch y dyddiadau pryd y bwriadwch ddefnyddio'r safle hwn ar gyfer gweithgareddau trwyddedadwy. (Darllenwch nodyn 9) | | |
| | | |
| Nodwch ar ba amserau yn ystod cyfnod y digwyddiad y bwriadwch wneud gweithgareddau trwyddedadwy (rhowch yr amserau gyda'r cloc 24 awr). (Darllenwch nodyn 10) | | |
| | | |
| Nodwch nifer fwyaf y bobl ar unrhyw adeg y bwriadwch ganiatáu iddynt fod yn bresennol yn y safle yn ystod yr oriau pryd y bwriadwch wneud gweithgareddau trwyddedadwy, gan gynnwys unrhyw staff, trefnyddion neu berfformwyr. (Darllenwch nodyn 11) | | |
| Os bydd y gweithgareddau trwyddedadwy'n cynnwys cyflenwi alcohol, nodwch a fydd y cyflenwadau ar gyfer eu treulio yn y safle neu allan ohono, neu'r ddau (ticiwch fel y bo'n briodol). (Darllenwch nodyn 12) | Yn y safle'n unig | <input type="checkbox"/> |
| | Allan o'r safle'n unig | <input type="checkbox"/> |
| | Y ddau | <input type="checkbox"/> |

Nodwch a fydd y gweithgareddau trwyddedadwy'n cynnwys darparu adloniant perthnasol. Os felly, nodwch yr amserau yn ystod cyfnod y digwyddiad y bwriadwch ddarparu **adloniant perthnasol**, (yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i ddawnsio côl a dawnsio polyn). (Darllenwch nodyn 13)

| 4. Deiliaid trwydded bersonol (Darllenwch nodyn 14) | | |
|--|-------------------------------------|--|
| Ydych chi ar hyn o bryd yn dal trwydded bersonol ddilys? (Ticiwch) | Yd w <input type="checkbox"/> | Nac ydw <input type="checkbox"/> |
| Os ydych, rhowch fanylion eich trwydded bersonol isod. | | |
| Awdurdod trwyddedu a'i rhoddodd | | |
| Rhif y drwydded Dyddiad ei chyhoeddi Unrhyw fanylion perthnasol eraill | | |

| 5. Rhybuddion digwyddiadau dros dro blaenorol a roddwyd gennych (Darllenwch nodyn 15 a thiciwch y blychau sy'n berthnasol i chi) | | |
|--|-------------------------------------|--|
| Ydych chi wedi rhoi rhybudd digwyddiad dros dro o'r blaen o ran unrhyw safle ar gyfer digwyddiadau yn ystod yr un flwyddyn galendr â'r digwyddiad perthnasol i'r rhybudd digwyddiad dros dro hwn? | Yd w <input type="checkbox"/> | Nac ydw <input type="checkbox"/> |
| Os ydych, nodwch nifer y rhybuddion digwyddiadau dros dro (gan gynnwys nifer y rhybuddion digwyddiadau hwyrol dros dro, os oedd rhai) a roddwyd gennych ar gyfer digwyddiadau yn ystod yr un flwyddyn galendr | | |
| Ydych chi eisoes wedi rhoi rhybudd digwyddiad dros dro ar gyfer yr un safle lle mae cyfnod y digwyddiad: a) yn dod i ben 24 awr neu lai cyn; neu b) yn dechrau 24 awr neu lai ar ôl cyfnod y digwyddiad sy'n cael ei gynnig yn y rhybudd hwn? | Yd w <input type="checkbox"/> | Nac ydw <input type="checkbox"/> |

| 6. Partneriaid busnes a phobl gysylltiedig (Darllenwch nodyn 16 a thiciwch y blychau sy'n berthnasol i chi) | | |
|--|--------------------------------|-----------------------------------|
| A roddwyd rhybudd digwyddiad dros dro gan unrhyw un cysylltiedig â chi ar gyfer digwyddiad yn yr un flwyddyn galendr â'r digwyddiad perthnasol i'r rhybudd digwyddiad dros dro hwn? | Do <input type="checkbox"/> | Naddo <input type="checkbox"/> |
| Os do, nodwch gyfanswm y rhybuddion digwyddiadau dros dro (gan gynnwys nifer y rhybuddion digwyddiadau hwyrol dros dro, os oedd rhai) a roddwyd gan rywun cysylltiedig â chi ar gyfer digwyddiadau yn yr un flwyddyn galendr. | | |
| A roddwyd rhybudd digwyddiad dros dro eisoes gan unrhyw un cysylltiedig â chi ar gyfer yr un safle lle mae cyfnod y digwyddiad: a) yn dod i ben 24 awr neu lai cyn; neu b) yn dechrau 24 awr neu lai ar ôl cyfnod y digwyddiad sy'n cael ei gynnig yn y rhybudd hwn? | Do <input type="checkbox"/> | Naddo <input type="checkbox"/> |
| A roddwyd rhybudd digwyddiad dros dro gan unrhyw un sydd mewn busnes gyda chi yn gwneud gweithgareddau trwyddedadwy ar gyfer digwyddiad yn yr un flwyddyn galendr â'r digwyddiad perthnasol i'r rhybudd digwyddiad dros dro hwn? | Do <input type="checkbox"/> | Naddo <input type="checkbox"/> |
| Os do, nodwch gyfanswm y rhybuddion digwyddiadau dros dro (gan gynnwys nifer y rhybuddion digwyddiadau hwyrol dros dro, os oedd rhai) a roddwyd gan eich cydweithwyr busnes ar gyfer digwyddiadau yn yr un flwyddyn galendr. | | |
| A roddwyd rhybudd digwyddiad dros dro eisoes gan unrhyw un sydd mewn busnes gyda chi yn gwneud gweithgareddau trwyddedadwy ar gyfer yr un safle lle mae cyfnod y digwyddiad: a) yn dod i ben 24 awr neu lai cyn; neu b) yn dechrau 24 awr neu lai ar ôl cyfnod y digwyddiad sy'n cael ei gynnig yn y rhybudd hwn? | Do <input type="checkbox"/> | Naddo <input type="checkbox"/> |

| 7. Rhestr wirio (Darllenwch nodyn 17) | |
|--|--------------------------|
| Rwyf wedi gwneud y canlynol: (Ticiwch y blychau priodol) | |
| Anfon o leiaf un copi o'r rhybudd hwn at yr awdurdod trwyddedu dros yr ardal y mae'r safle ynddi | <input type="checkbox"/> |
| Anfon copi o'r rhybudd hwn at brif swyddog yr heddlu ar gyfer yr ardal y mae'r safle ynddi | <input type="checkbox"/> |
| Anfon copi o'r rhybudd hwn at yr awdurdod lleol sydd â swyddogaethau iechyd amgylcheddol dros yr ardal y mae'r safle ynddi | <input type="checkbox"/> |
| Os yw'r safle yn ardal mwy nag un awdurdod trwyddedu, anfon o leiaf un copi o'r rhybudd hwn at bob awdurdod trwyddedu ychwanegol | <input type="checkbox"/> |
| Os yw'r safle yn ardal mwy nag un heddlu, anfon copi o'r rhybudd hwn at bob prif swyddog heddlu ychwanegol | <input type="checkbox"/> |
| Os yw'r safle yn ardal mwy nag un awdurdod lleol, anfon copi o'r rhybudd hwn at bob awdurdod lleol ychwanegol sydd â swyddogaethau iechyd amgylcheddol | <input type="checkbox"/> |
| Gwneud neu amgáu taliad o'r ffi am wneud y cais. Nodwch nad yw arian parod bellach yn dderbyniol fel dull talu am geisiadau drwy'r post. | <input type="checkbox"/> |
| Llofnodi'r datganiad yn Adran 9 isod | <input type="checkbox"/> |

| | |
|--|--|
| | |
|--|--|

8. Amod (Darllenwch nodyn 18)

Mae'n amod y rhybudd digwyddiad dros dro hwn pan fo'r gweithgareddau trwyddedadwy perthnasol a ddisgrifiwyd yn Adran 3 uchod yn cynnwys cyflenwi alcohol bod holl gyflenwadau'n cael eu gwneud gan neu dan awdurdod defnyddiwr y safle.

9. Datganiadau (Darllenwch nodyn 19)

Mae'r wybodaeth ar y ffurflen hon yn gywir hyd y gwn ac y credaf.

Rwy'n deal ei bod yn drosedd:

(i) gwneud datganiad anwir yn ymwybodol neu'n fyrbwyll yn neu mewn cysylltiad â'r rhybudd digwyddiad dros dro hwn a bod unigolyn yn atebol ar gollfarn ddiannod am drosedd o'r fath i ddirwy heb fod dros lefel 5 ar y raddfa safonol; a

(ii) caniatáu gweithgaredd trwyddedig anawdurdodedig i gael ei gynnal mewn unrhyw le a bod unigolyn yn agored, os yw'n cael collfarn ddiannod am drosedd o'r fath i ddirwy o unrhyw swm, neu gyfnod yn y carchar heb fod yn fwy na chwe mis, neu'r ddau.

| | |
|--------------------------|--|
| Llofnod | |
| Dyddiad | |
| Enw'r sawl sy'n llofnodi | |

I'w gwblhau gan yr awdurdod trwyddedu

10. Cydnabyddiaeth (Darllenwch nodyn 20)

Rwy'n cydnabod derbyn y rhybudd digwyddiad dros dro hwn.

| | |
|-----------------------------|------------------------------|
| Llofnod | Ar ran yr awdurdod trwyddedu |
| Dyddiad | |
| Enw'r Swyddog sy'n llofnodi | |

NODIADAU

Cyffredinol

Yn y nodiadau hyn, caiff rhywun sy'n rhoi rhybudd digwyddiad dros dro yr enw "defnyddiwr safle".

Gall yr heddlu a'r awdurdod lleol sydd â swyddogaeth iechyd amgylcheddol ymyrryd ar sail unrhyw un o'r pedwar amcan trwyddedu (atal trosedd ac anhrefn, diogelwch y cyhoedd, atal niwsans cyhoeddus ac amddiffyn plant rhag niwed) i atal digwyddiad

rhag cael ei gynnal ble bydd gweithgareddau dros dro a ganiateir yn digwydd neu i gytuno ar addasiad i'r trefniadau ar gyfer y fath ddigwyddiad. Fodd bynnag, bydd yr awdurdod trwyddedu'n ymyrryd o'i ddewis ei hun yn yr achosion sy'n cael eu disgrifio isod.

Yn gyntaf, bydd yn cyhoeddi gwrthrybudd os oes gwrthwynebiad i rybudd digwyddiad hwyrol dros dro (gwelwch nodyn 8 isod).

Yn ail, gall gyhoeddi rhybudd cysylltiedig â'i benderfyniad i osod amodau ar rybudd digwyddiad dros dro (gwelwch nodyn 2 isod).

Yn drydydd, bydd yn cyhoeddi gwrthrybudd pe byddai'r terfynau cyntaf, ail, trydydd a phumed isod yn cael eu torri. Os caiff unrhyw un o'r terfynau isod eu torri neu os cyhoeddwyd gwrthrybudd, byddai unrhyw weithgareddau trwyddedadwy sy'n digwydd yn ddiawdurdod a byddai defnyddiwr yr eiddo'n agored i erlyniad. Mae'r terfynau'n berthnasol i'r canlynol:

- sawl tro y gall unigolyn roi rhybudd digwyddiad dros dro (50 gwaith y flwyddyn o ran deiliad trwydded bersonol a 5 gwaith y flwyddyn o ran pobl eraill);
- sawl tro y gall unigolyn roi rhybudd digwyddiad hwyrol dros dro (10 gwaith y flwyddyn o ran deiliad trwydded bersonol a dwywaith y flwyddyn o ran pobl eraill);
- sawl gwaith y mae hawl rhoi rhybudd digwyddiad dros dro ar gyfer unrhyw safle arbennig (15 gwaith mewn blwyddyn galendr);
- pa mor hir y gall digwyddiad dros dro barhau at y dibenion hyn (168 awr neu 7 niwrnod);
- cyfanswm hyd y cyfnodau gyda'i gilydd dan y rhybuddion digwyddiadau dros dro mewn unrhyw safle unigol (21 diwrnod y flwyddyn galendr); a
- maint y digwyddiad o ran uchafswm y bobl sy'n mynychu ar unrhyw adeg benodol (uchafswm o 499).

At ddibenion penderfynu terfynau 50 rhybudd digwyddiadau dros dro at ei gilydd fesul deiliad trwydded bersonol (mewn blwyddyn galendr) a 5 o ran pobl nad ydynt yn dal trwydded bersonol (mewn blwyddyn galendr), mae rhybuddion digwyddiadau dros dro a roddwyd gan rywun cysylltiedig neu rywun sydd mewn busnes gyda defnyddiwr safle (a'r busnes hwnnw'n golygu gwneud gweithgareddau trwyddedadwy) yn cyfrif tuag at y cyfansymiau hynny. Mae'r terfynau perthnasol i rybuddion digwyddiadau hwyrol dros dro yn cael eu cynnwys o fewn y terfynau at ei gilydd sy'n berthnasol i gyfanswm y rhybuddion digwyddiadau dros dro. Yn nodyn 16 isod mae diffiniad o "rywun cysylltiedig".

Pan fydd gweithgareddau dros dro a ganiateir yn digwydd, rhaid i ddefnyddiwr safle sicrhau'r naill neu'r llall o'r canlynol:

- bod copi o'r rhybudd digwyddiad dros dro yn cael ei arddangos yn amlwg yn y safle; neu
- bod y rhybudd digwyddiad dros dro'n cael ei gadw yn y safle nail ai dan ei ofal ei hun neu dan ofal rhywun sy'n bresennol

ac yn gweithio yn y safle ac a enwyd ganddo at y diben hwnnw.

Pan fo'r rhybudd digwyddiad dros dro dan ofal rhywun a enwyd, rhaid arddangos rhybudd yn pennu'r faith honno a swydd y cyfryw unigolyn yn amlwg yn y safle.

Pan nad yw'r rhybudd digwyddiad dros dro neu rybudd yn pennu rhywun a enwyd yn cael ei arddangos, fe all cwnstabl neu rywun awdurdodedig (er enghraifft, swyddog trwyddedu, swyddog tân neu swyddog iechyd amgylcheddol) fynnu bod defnyddiwr y safle'n cyflwyno'r rhybudd digwyddiad dros dro i'w archwilio. Yn yr un modd, pan fo rhybudd digwyddiad dros dro dan ofal rhywun a enwyd, fe all cwnstabl neu rywun awdurdodedig fynnu bod y cyfryw unigolyn yn ei gyflwyno i'w archwilio. Byddai'n drosedd peidio â chyflwyno'r rhybudd digwyddiad dros dro heb esgus rhesymol.

Dylid nodi hefyd bod y canlynol, ymhlith pethau eraill, yn droseddau dan Ddeddf Drwyddedu 2003:

- gwerthu neu gyflenwi alcohol i blant dan 18 oed (yn destun dirwy heb gyfyngiad yn dilyn collfarn);
- caniatáu gwerthu alcohol i blant dan 18 (yn destun dirwy heb gyfyngiad yn dilyn collfarn);
- caniatáu i rywun dan 18 oed yfed alcohol yn y safle (yn destun dirwy heb gyfyngiad yn dilyn collfarn);
- caniatáu ymddygiad anhrefnus yn y safle (yn destun dirwy heb fod yn uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol, yn dilyn collfarn);
- gwerthu alcohol i rywun sy'n feddw (yn destun dirwy heb fod yn uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol, yn dilyn collfarn);
- cael alcohol i rywun sy'n feddw (yn destun dirwy heb fod yn uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol, yn dilyn collfarn);
- caniatáu i rywun dan 18 oed werthu neu gyflenwi alcohol heblaw bod y gwerthu neu gyflenwi wedi cael ei gymeradwyo'n benodol gan ddefnyddiwr y safle neu unigolyn 18 oed neu hŷn a awdurdodwyd i'r diben hwn gan ddefnyddiwr y safle (yn destun dirwy heb fod yn uwch na lefel 1 ar y raddfa safonol, yn dilyn collfarn); a hefyd
- cadw neu ganiatáu cadw yn y safle unrhyw nwyddau a fewnforiwyd heb dalu toll drwy smyglo neu a fewnforiwyd yn anghyfreithlon fel arall (yn destun dirwy heb fod yn uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol, yn dilyn collfarn).

Yn ogystal, pan fo'r safle i gael ei ddefnyddio'n bennaf neu'n gyfan gwbl ar gyfer gwerthu neu gyflenwi alcohol i'w yfed yn y safle, mae'n drosedd caniatáu i blant dan 16 oed fod yn bresennol pan fo'r safle ar agor i'r diben hwnnw heblaw eu bod yng nghwmni oedolyn. Yn achos unrhyw safle lle mae alcohol yn cael ei werthu neu ei gyflenwi o gwbl, mae'n drosedd i blentyn dan 16 oed fod yn bresennol yno rhwng hanner nos a 5am heblaw yng nghwmni oedolyn. Yn y ddau achos, y gosb ar gollfarn yw dirwy heb fod uwchlaw lefel 3 ar y raddfa safonol sef £1,000 ar hyn o bryd.

Nodyn 1

Dim ond unigolyn sy'n gallu rhoi rhybudd digwyddiad dros dro ac ni all sefydliad neu glwb neu fusnes, er enghraifft, wneud hynny. Yr unigolyn sy'n rhoi'r rhybudd yw'r "defnyddiwr safle" arfaethedig. Mewn busnesau, clybiau neu sefydliadau, felly, bydd angen enwi unigolyn fel defnyddiwr arfaethedig y safle.

Os byddwch yn cynnwys cyfeiriad e-bost yn adran 1(7) neu 1(9), fe all yr awdurdod trwyddedu anfon i'r cyfeiriad hwnnw gydnabyddiaeth derbyn eich rhybudd neu unrhyw rybudd neu wrthrybudd sy'n ofynnol iddo eu rhoi dan adrannau 104A, 106A neu 107 o Ddeddf Drwyddedu 2003.

Nodyn 2

At ddibenion Deddf Drwyddedu 2003, mae "safle" yn golygu unrhyw fan. Felly, ni fydd safle bob amser yn adeilad gyda chyfeiriad ffurfiol a chod post. Fe all safle gynnwys, er enghraifft, parc cyhoeddus, maes chwaraeon a thir preifat.

Os yw trwydded safle neu dystysgrif safle clwb yn effeithiol o ran y safle (neu unrhyw ran o'r safle) lle'r ydych eisiau gwneud gweithgareddau trwyddedadwy, fe all unrhyw amodau sy'n berthnasol i'r drwydded neu dystysgrif gael eu gosod ar y rhybudd digwyddiad dros dro os bydd rhagamodau penodol yn berthnasol. Y rhagamodau hyn yw bod yr heddlu neu'r awdurdod lleol sydd â swyddogaethau iechyd amgylcheddol yn gwrthwynebu'r rhybudd a bod yr awdurdod trwyddedu'n penderfynu:

- peidio â rhoi gwrthrybudd dan adran 105 o Ddeddf Drwyddedu 2003;
- bod yr amodau'n berthnasol i'r drwydded neu dystysgrif; ac
- na fyddai gosod yr amodau ar y rhybudd yn anghyson â gwneud y gweithgareddau trwyddedadwy dan y rhybudd.

Nodyn 3

Mae modd rhoi rhybudd digwyddiad dros dro ar gyfer rhan o adeilad, fel un ystafell neu lain o fewn darn mwy o dir. Dylech roi disgrifiad eglur o'r ardal ble'r ydych yn bwriadu gwneud gweithgareddau trwyddedadwy. Mae hyn yn bwysig oherwydd y byddai unrhyw weithgareddau trwyddedadwy sy'n digwydd oddi allan i ran hon y safle sy'n cael ei gwarchod gan y rhybudd digwyddiad dros dro hwn yn anghyfreithlon a gallai arwain at erlyniad.

Yn ogystal, wrth gynnal y digwyddiad arfaethedig, byddai angen i ddefnyddiwr y safle allu cyfyngu nifer y bobl yn y safle ar unrhyw adeg pan fo gweithgareddau trwyddedadwy'n digwydd i lai na 500. Os oes mwy na 499 yn y safle pan fo gweithgareddau trwyddedadwy'n digwydd, byddai'r gweithgareddau trwyddedadwy'n anghyfreithlon a byddai defnyddiwr y safle y'n agored i erlyniad. Mae'r uchafswm o 499 yn cynnwys, er enghraifft, staff, trefnyddion, stiwardiaid a pherfformwyr.

Nodyn 4

Mae disgrifiad o natur y safle yn cynorthwyo prif swyddog yr heddlu a'r awdurdod lleol sydd â swyddogaethau iechyd amgylcheddol wrth iddynt benderfynu a yw unrhyw faterion perthnasol i'r amcanion trwyddedu'n debygol o godi. Dylech ddatgan yn eglur

bod y safle sydd i'w ddefnyddio, er enghraifft, yn dŷ tafarn, yn dŷ bwyta, yn gae agored, yn neuadd bentref neu'n babell gwrw.

Nodyn 5

Mae disgrifiad o natur y digwyddiad yn yr un modd yn cynorthwyo prif swyddog yr heddlu a'r awdurdod lleol sydd â swyddogaethau iechyd amgylcheddol wrth iddynt benderfynu gwrthwynebu neu beidio. Dylech ddatgan yn eglur y byddai'r digwyddiad yn y safle, er enghraifft, yn briodas gyda bar talu, yn gyflenwad cwrw mewn marchnad ffermwyr benodol, yn ddisgo, yn berfformiad pedwarawd llinynnol, yn grŵp gwerin neu'n fand roc.

Nodyn 6

Y gweithgareddau trwyddedadwy yw:

- adwerthu alcohol;
- cyflenwi alcohol gan neu ar ran clwb i, neu ar archeb, aelod o'r clwb;
- Darparu adloniant rheoledig; and
- Darparu lluniaeth hwyrol.

Cyfeiriwch at Atodlenni 1 a 2 i Ddeddf Drwyddedu 2003 i weld manylion llawnach y diffiniadau ac eithriadau perthnasol i adloniant rheoledig a lluniaeth hwyrol.

Nodyn 7

Gan ddibynnu ar amodau ac eithriadau penodedig, mae adloniant rheoledig yn cynnwys:

- (a) perfformiad o ddrama;
- (b) arddangos ffilm;
- (c) achlysur chwaraeon dan do;
- (d) adloniant paffio neu ymaflyd codwm;
- (e) perfformiad o gerddoriaeth fyw;
- (f) chwarae unrhyw gerddoriaeth a recordiwyd;
- (g) perfformiad o ddawns; ac
- (h) adloniant o ddisgrifiad tebyg i'r hyn yn (e), (f) neu (g).

O ran adloniant rheoledig penodol nodwch:

- Dramâu: nid oes angen trwydded ar gyfer perfformiadau rhwng 08:00 a 23:00 ar unrhyw ddiwrnod ar yr amod nad yw'r gynulleidfa dros 500 mewn nifer.
- Ffilmiau: nid oes angen trwydded ar gyfer arddangosfa ffilm 'dielw' sy'n cael ei chynnal mewn adeilad cymunedol rhwng 8:00 a 23:00 ar unrhyw ddiwrnod ar yr amod nad yw'r gynulleidfa dros 500 mewn nifer a bod y trefnydd (a) yn cael caniatâd i ddangos y ffilm gan yr unigolyn sy'n gyfrifol am y safle; a (b) yn sicrhau bod pob dangosiad yn dilyn y cyfraddau o ran dosbarthiad oedran.
- Digwyddiadau chwaraeon Dan Do: nid oes angen trwydded ar gyfer perfformiadau rhwng 08.00:00 a 23:00 ar unrhyw ddiwrnod ar yr amod nad yw'r gynulleidfa dros 1000 mewn nifer.

- Paffio neu reslo er adloniant: nid oes angen trwydded ar gyfer cystadleuaeth neu arddangosfa reslo *Greco-Roman*, neu reslo dull rhydd rhwng 8:00 a 23:00 ar unrhyw ddiwrnod, ar yr amod na yw'r gynulleidfa dros 1000 mewn nifer. Mae chwaraeon ymladd ar y cyd – sy'n cael eu diffinio yn gystadleuaeth neu arddangosfa ac sy'n cyfuno bocsi neu reslo gydag un neu ragor o grefftau ymladd – yn weithgareddau trwyddadwy ac yn cael eu hystyried yn adloniant bocsi neu reslo yn hytrach na digwyddiad chwaraeon dan do.
- Cerddoriaeth Fyw: nid oes angen caniatâd trwydded ar gyfer:
 - perfformiad o gerddoriaeth fyw nad yw ar seinydd rhwng 8:00 a 23:00 ar unrhyw ddiwrnod, ac mewn unrhyw safle.
 - perfformiad o gerddoriaeth fyw ar seinydd rhwng 08:00 a 23:00 ar unrhyw ddiwrnod mewn safle sydd wedi'i awdurdodi i werthu alcohol i'w yfed yn y safle hwnnw, ar yr amod nad yw'r gynulleidfa dros 500 mewn nifer.
 - perfformiad o gerddoriaeth fyw ar seinydd rhwng 08:00 a 23:00 ar unrhyw ddiwrnod mewn gweithle heb awdurdod i werthu alcohol yn y safle hwnnw, ar yr amod nad yw'r gynulleidfa dros 500 mewn nifer.
 - perfformiad o gerddoriaeth fyw ar seinydd rhwng 8:00 a 23:00 ar unrhyw ddiwrnod, mewn neuadd eglwys, neuadd bentref, neuadd gymunedol, neu safle cymunedol tebyg arall, nad oes ganddo drwydded safle i werthu alcohol, ar yr amod (a) nad yw'r gynulleidfa dros 500 mewn nifer, a (b) bod y trefnydd yn cael caniatâd ar gyfer y perfformiad gan unigolyn sy'n gyfrifol am y safle.
 - perfformiad o gerddoriaeth fyw ar seinydd rhwng 08:00 a 23:00 ar unrhyw ddiwrnod, ar safle dibreswyl (i) yr awdurdod lleol, neu (ii) ysgol, neu (iii) ysbyty, ar yr amod (a) nad yw'r gynulleidfa dros 500 mewn nifer, a (b) bod y trefnydd yn cael caniatâd ar gyfer y perfformiad ar y safle perthnasol: (i) yr awdurdod lleol dan sylw, neu (ii) yr ysgol neu (iii) y darparwr gofal iechyd ar gyfer yr ysbyty.
- Cerddoriaeth a recordiwyd: nid oes angen caniatâd trwydded ar gyfer:
 - chwarae cerddoriaeth wedi'i recordio rhwng 08:00 a 23:00 ar unrhyw ddiwrnod mewn safle sydd wedi'i awdurdodi i werthu alcohol i'w yfed ar y safle hwnnw, ar yr amod nad yw'r gynulleidfa dros 500 mewn nifer.
 - chwarae cerddoriaeth wedi'i recordio rhwng 08:00 a 23:00 ar unrhyw ddiwrnod, mewn neuadd eglwys, neuadd bentref, neuadd gymunedol, neu safle cymunedol tebyg arall, nad oes ganddo drwydded safle i werthu alcohol, ar yr amod (a) nad yw'r gynulleidfa dros 500 mewn nifer, a (b) bod y trefnydd yn cael caniatâd ar gyfer y perfformiad gan unigolyn sy'n gyfrifol am y safle.
 - chwarae cerddoriaeth wedi'i recordio rhwng 08:00 a 23:00 ar unrhyw ddiwrnod, ar safle di-breswyl (i) yr awdurdod lleol, neu (ii) ysgol, neu (iii) ysbyty, ar yr amod (a) nad yw'r gynulleidfa dros 500 mewn nifer, a (b) bod y trefnydd yn cael caniatâd ar gyfer y perfformiad ar y safle perthnasol: (i) yr awdurdod lleol dan sylw, neu (ii) yr ysgol neu (iii) y darparwr gofal iechyd ar gyfer yr ysbyty.
- Dawnsio: nid oes angen trwydded ar gyfer perfformiadau rhwng 08:00 a 23:00 ar unrhyw ddiwrnod ar yr amod nad yw'r gynulleidfa dros 500 mewn nifer. Fodd bynnag, mae angen trwydded ar gyfer perfformiad sy'n cael ei ystyried yn adloniant oedolion.
- Eithriadau o ran cyfuniad o weithgareddau: nid oes angen trwydded rhwng 08:00 a 23:00 ar unrhyw ddiwrnod, heb gyfyngiad ar faint y gynulleidfa ar gyfer y canlynol:
 - unrhyw adloniant sy'n cael ei gynnal ar safle'r awdurdod lleol lle mae'r adloniant yn cael ei ddarparu gan neu ar ran yr awdurdod lleol;
 - unrhyw adloniant sy'n cael ei gynnal ar safle ysbyty darparwr y gofal iechyd lle mae'r adloniant yn cael ei ddarparu gan neu ar ran y darparwr gofal iechyd;
 - unrhyw adloniant sy'n cael ei gynnal ar safle ysgol lle mae'r adloniant yn cael ei ddarparu gan neu ar ran perchennog yr ysgol; ac
 - unrhyw adloniant (ac eithrio ffilmiau ac adloniant bocsi neu reslo) sy'n cael ei gynnal gan syrcas deithiol, ar yr amod (a) ei fod yn cael ei gynnal mewn strwythur symudol sy'n cynnwys y gynulleidfa, a (b) nad yw'r syrcas deithiol wedi bod ar yr un safle am fwy na 28 diwrnod yn olynol.

Os ydych yn ansicr a yw'r gweithgareddau a fwriadwch yn drwyddedadwy neu beidio, dylech ofyn i'ch awdurdod trwyddedu am ragor o gyngor.

Nodyn 8

Mae modd rhoi rhybuddion hwyrol heb fod ar ôl 5 diwrnod gwaith ond dim cynharach na 9 diwrnod gwaith cyn y digwyddiad perthnasol i'r rhybudd. Bydd rhybudd hwyrol a roddwyd ar ôl 5 diwrnod gwaith cyn y digwyddiad perthnasol iddo'n cael ei ddychwelyd fel di-rym ac ni fydd awdurdod i gynnal y gweithgareddau sy'n cael eu disgrifio ynddo.

Cyfyngir nifer y rhybuddion hwyrol y mae modd eu rhoi yn unrhyw un flwyddyn galendr i 10 o ran deiliaid trwydded bersonol a 2 o ran pobl eraill. Mae'r rhain yn cyfrif tuag at gyfanswm y rhybuddion digwyddiadau dros dro (h.y. 50 rhybudd digwyddiad dros dro y flwyddyn o ran deiliaid trwydded bersonol a 5 rhybudd digwyddiad dros dro ar gyfer pobl eraill).

Os yw nail ai'r heddlu neu'r awdurdod lleol sydd â swyddogaethau iechyd amgylcheddol yn gwrthwynebu, ni fydd yr achlysur yn digwydd a bydd gwrthrybudd yn cael ei gyhoeddi.

Nodyn 9

Y cyfnod fwyaf y gall safle gael ei ddefnyddio ar gyfer gweithgareddau trwyddedadwy dan awdurdod rhybudd digwyddiad dros dro yw 168 awr neu saith niwrnod.

Nodyn 10

Dylech ddatgan yma'r amserau yn ystod cyfnod y digwyddiad, er enghraifft 48 awr, pryd y bwriadwch wneud gweithgareddau trwyddedadwy. Er enghraifft, efallai nad ydych yn bwriadu gwneud gweithgareddau trwyddedadwy drwy gydol cyfnod digwyddiad o 48 awr, ac efallai eich bod yn bwriadu gwerthu alcohol rhwng 08.00 a 23.00 ar y ddau ddiwrnod.

Nodyn 11

Ni chaiff mwy na 499 o bobl fod yn y safle ar gyfer digwyddiad dros dro ar unrhyw adeg pan fo gweithgareddau trwyddedadwy'n digwydd. Os ydych yn bwriadu cael mwy na 499 o bobl yn y digwyddiad, dylech gael trwydded safle ar gyfer y digwyddiad. Dylai eich awdurdod trwyddedu allu eich cynghori. Mae'r uchafswm o 499 yn cynnwys nid yn unig y gynulleidfa, gwylwyr neu ddefnyddwyr ond hefyd, er enghraifft, staff, trefnyddion, stiwardiaid a pherfformwyr sy'n bresennol yn y safle.

Nodyn 12

Os ydych yn nodi y bydd alcohol yn cael ei gyflenwi i'w yfed yn y safle'n unig, bydd gofyn i chi sicrhau nad oes neb yn gadael y safle gydag alcohol a gyflenwyd yno. Os bydd cyflenwad o'r fath yn digwydd, fe all defnyddiwr y safle fod yn agored i erlyniad am gynnal gweithgaredd trwyddedadwy diawdurdod. Yn yr un modd, os yw defnyddiwr y safle o'n rhoi rhybudd mai dim ond cyflenwadau alcohol i'w hyfed allan o'r safle fydd yn digwydd, rhaid i'r cyfryw ddefnyddiwr sicrhau nad yw alcohol a gyflenwir yn cael ei yfed yn y safle. Mae defnyddiwr y safle'n rhydd i roi rhybudd y bydd y ddau fath o

gyflenwad yn digwydd. I'r diben hwn, mae cyflenwi alcohol yn cynnwys y ddau weithgaredd trwyddedadwy a restrwyd yn nodyn 6 uchod.

Nodyn 13

Diffiniad **adloniant perthnasol** yn Neddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 ("Deddf 1982") yw *unrhyw berfformiad byw neu unrhyw arddangosiad byw o noethni sydd o'r fath natur, gan anwybyddu elw ariannol, ei bod yn rhaid tybio o fewn rheswm ei fod yn cael ei ddarparu yn unig neu'n bennaf at ddiben cyffroi unrhyw aelod o'r gynulleidfa (boed hynny trwy ddull geiriol neu arall) yn rhywiol*. Felly, mae adloniant perthnasol yn cynnwys dawnsio ar liniau a pholion, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny. (Darllenwch nodyn 12)

Mae Deddf 1982 yn gofyn trwyddedu safle sy'n darparu adloniant perthnasol dan y Ddeddf honno i'r diben hwn. Mae safle lle na fu mwy nag 11 achlysur pryd y darparwyd adloniant o'r fath o fewn cyfnod o 12 mis, lle na pharodd unrhyw achlysur o'r fath am fwy na 24 awr a lle bu cyfnod o fis fan leiaf rhwng pob achlysur o'r fath yn rhydd o'r gofyniad i gael trwydded dan Ddeddf 1982. Yn hytrach, mae safle o'r fath yn debygol o fod angen awdurdodiad dan Ddeddf Drwyddedu 2003 i'w ddefnyddio ar gyfer gweithgareddau o'r fath oherwydd bod y rhain yn weithgareddau trwyddedadwy (Darparu adloniant rheoledig – gwelwch nodyn 6 uchod). Fe all rhybudd digwyddiad dros dro gael ei roi i'r diben hwn.

Nodyn 14

Caiff deiliad trwydded bersonol ddilys a gyhoeddwyd dan Ddeddf Drwyddedu 2003 roi hyd at 50 o rybuddion digwyddiadau dros dro yn unrhyw flwyddyn galendr yn amodol ar y cyfyngiadau eraill yn Neddf 2003. Dylai darpar ddefnyddiwr safle sy'n dal trwydded o'r fath roi'r manylion gofynnol.

Nodyn 15

Fel y nodwyd dan Nodyn 14, fe all deiliad trwydded bersonol (a gyhoeddwyd dan Ddeddf Drwyddedu 2003) roi hyd at 50 o rybuddion digwyddiadau dros dro (gan gynnwys 10 rhybudd hwyrol) yn unrhyw flwyddyn galendr. Ni all unigolyn nad yw'n dal trwydded bersonol roi mwy na 5 o rybuddion digwyddiadau dros dro (gan gynnwys 2 rybudd hwyrol) yng Nghymru a Lloegr yn unrhyw flwyddyn galendr. Blwyddyn galendr yw'r cyfnod rhwng 1af Ionawr a 31ain Rhagfyr yn gynwysedig yn unrhyw flwyddyn.

Os yw digwyddiad yn pontio dwy flwyddyn galendr, bydd yn cyfrif yn erbyn y cyfyngiadau ar rybuddion digwyddiadau dros dro (12 ar gyfer pob eiddo, 21 diwrnod ar gyfer pob eiddo, 50 fesul deiliad trwydded bersonol a 5 o ran pobl eraill) am bob blwyddyn. Fodd bynnag, dim ond un rhybudd sydd angen ei roi.

At ddibenion penderfynu'r cyfyngiadau llawn o 50 o rybuddion digwyddiadau dros dro fesul deiliad trwydded bersonol (mewn blwyddyn galendr) a 5 o ran pobl eraill (mewn blwyddyn galendr), mae rhybuddion digwyddiadau dros dro sy'n cael eu rhoi gan rywun cysylltiedig neu rywun sydd mewn busnes gyda defnyddiwr eiddo (a'r busnes hwnnw'n golygu gwneud gweithgareddau trwyddedadwy) yn cyfrif tuag at y cyfansymiau hyn. Mae Nodyn 16 isod yn rhoi diffiniad o "rywun cysylltiedig".

Os rhoddwyd rhybudd digwyddiad dros dro ar gyfer yr un safle, gan yr un defnyddiwr safle, ac y byddai'n effeithiol o fewn 24 awr cyn dechrau cyfnod y digwyddiad dan y

cynnig presennol neu o fewn 24 awr ar ôl diwedd y cyfnod hwnnw, byddai'r rhybudd digwyddiad dros dro a roddwyd yn ddi-rym ac, felly, byddai unrhyw weithgareddau trwyddedadwy a wnaed yn ei sgil yn ddirwydded.

At ddibenion penderfynu a yw'r bwloch gofynnol o 24 awr yn cael ei gynnal neu beidio, mae rhybuddion digwyddiadau dros dro a roddwyd gan rywun cysylltiedig neu rywun sydd mewn busnes gyda defnyddiwr safle (a'r busnes hwnnw'n golygu gwneud gweithgareddau trwyddedadwy) yn cyfrif fel pe bai defnyddiwr y safle wedi'u rhoi. Mae Nodyn 16 isod yn rhoi diffiniad o "rywun cysylltiedig".

Nodyn 16

"Rhywun cysylltiedig" â defnyddiwr arfaethedig y safle yw:

- (a) priod neu bartner sifil y defnyddiwr;
- (b) plentyn, rhiant, wŷr neu wyres, tad-cu neu fam-gu, brawd neu chwaer y defnyddiwr;
- (c) asiant neu gyflogai'r defnyddiwr; neu
- (d) priod neu bartner sifil rhywun yn (b) neu (c).

At y dibenion hyn, mae rhywun sy'n byw gydag unigolyn arall fel gŵr neu wraig i gael eu trin fel priod y cyfryw unigolyn.

Nodyn 17

Mae gofyniad eich bod yn anfon o leiaf un copi o'r rhybudd hwn at yr awdurdod trwyddedu o leiaf ddeg diwrnod gwaith (neu bum niwrnod gwaith ar gyfer rhybudd hwyrol) cyn dechrau'r gweithgareddau trwyddedadwy arfaethedig. Bydd yr awdurdod yn cydnabod derbyn y rhybudd yn ysgrifenedig. Bydd hon yn dystiolaeth bwysig eich bod wedi rhoi rhybudd a phryd y gwnaethoch hynny at ddibenion y Ddeddf. Fe all safle fod yn nhiriogaeth dau awdurdod trwyddedu, er enghraifft, pan fo adeilad neu gae'n pontio'r ffin rhwng yr awdurdodau lleol. Yn yr achos hwn, rhaid anfon o leiaf un copi o'r rhybudd at bob un o'r awdurdodau trwyddedu a nodwyd, ynghyd â'r ffi briodol ymhob achos. Dan y fath amgylchiadau, byddwch yn derbyn cydnabyddiaeth oddi wrth bob un o'r awdurdodau trwyddedu perthnasol.

Rhaid anfon un copi'r un at brif swyddog yr heddlu a'r awdurdod lleol sydd â swyddogaethau iechyd amgylcheddol dros yr ardal ble mae'r safle o leiaf ddeg diwrnod gwaith o ran rhybudd safonol (neu bum niwrnod gwaith o ran rhybudd hwyrol) cyn dechrau'r gweithgareddau trwyddedadwy arfaethedig. Pan fo'r safle yn ardaloedd dau heddlu neu ddwy ardal iechyd amgylcheddol, bydd angen anfon copi arall at yr heddlu ychwanegol a'r awdurdod lleol ychwanegol sydd â swyddogaethau iechyd amgylcheddol.

Nodyn 18

Dan Ddeddf Drwyddedu 2003, mae holl rhybuddion digwyddiadau dros dro'n cael eu rhoi gydag amod orfodol sy'n gofyn, pan fo'r gweithgareddau trwyddedadwy'n cynnwys cyflenwi alcohol, bod holl gyflenwadau o'r fath yn gorfod cael eu gwneud gan neu dan awdurdod defnyddiwr penodol y safle . Os yw'r amod hon yn cael ei thorri, byddai defnyddiwr y safle a'r unigolyn sy'n gwneud y cyflenwad dan sylw'n agored i

erlyniad. I'r diben hwn, mae cyflenwi alcohol yn cynnwys y ddau weithgaredd trwyddedadwy cyntaf a restrwyd yn nodyn 6 uchod.

Nodyn 19

Mae'n drosedd gwneud datganiad anwir yn ymwybodol neu'n fyrbwyll mewn rhybudd digwyddiad dros dro, neu'n gysylltiedig ag un. (Bydd yn cael ei ystyried bod rhywun wedi gwneud datganiad anwir os bydd yn cyflwyno, darparu, llofnodi neu fel arall yn defnyddio dogfen sy'n cynnwys datganiad anwir.) Gallai gwneud hynny arwain at erlyniad a dirwy heb fod uwchlaw lefel 5 ar y raddfa safonol.

Nodyn 20

Ni ddylech gwblhau adran 10 y rhybudd, sydd at ddefnydd yr awdurdod trwyddedu. Fe all yr awdurdod gwblhau'r adran hon fel un dull o roi cydnabyddiaeth ysgrifenedig i chi ei fod wedi derbyn y rhybudd.